PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 24 IONAWR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Howells, McGarry, Mitchell, Murphy a/ac Walker |

CROESO

Ar ddechrau'r cyfarfod croesawodd y Cadeirydd y ddau Aelod Annibynnol sydd newydd eu penodi, Gavin McArthur a David Price. Gwnaeth y ddau Aelod Annibynnol ddatganiadau i gyflwyno eu hunain.

Yn ogystal, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau nodi y byddai Janet McNicholas o Swyddfa Archwilio Cymru yn ymddeol ddiwedd mis Chwefror. Gofynnodd y Cadeirydd am gymeradwyaeth y Pwyllgor i anfon llythyr at Janet McNicholas yn diolch iddi am ei chyfraniad i waith y Pwyllgor a dymuno'n dda iddi yn ei hymddeoliad.

63 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Ian Arundale a'r Cynghorydd Kelloway.

64 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaethpwyd y datganiadau o fuddiant canlynol yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Mitchell | Eitem 9.2 | Llywodraethwr Ysgol Perthyn i Weithiwr Cymdeithasol |
| Y Cynghorydd Howells | Eitem 9.1 | Llywodraethwr Ysgol |

65 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2016 gan y Pwyllgor yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

<u>Materion yn codi</u>

Nododd Pennaeth Cyllid nad oedd y Cabinet ffurfiol wedi derbyn cynigion yn ymwneud â'r Gwasanaeth Integredig/Strategaeth Ariannol.

Gofynnwyd i aelodau nodi bod y mater o ddiogelwch ar-lein wedi'i ystyried yn rhan o'r Gofrestr Peryglon Corfforaethol.  Byddai'r Gofrestr Peryglon Corfforaethol yn eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod gwaith ar waith ar adroddiad yn rhoi manylion o wariant asiantaeth yr oedd modd ei gyfiawnhau ledled gwasanaethau; ac adroddiad datganiad sefyllfa ar gymharu telerau ac amodau staff.

Cyllid
66 : CYLLID

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor.  Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ddiweddariad ar lafar i'r Pwyllgor.

Atgoffwyd aelodau bod datganiadau a gyflwynwyd yn hwyr fis Tachwedd 2016 gan aelodau'r cyhoedd wedi atal Swyddfa Archwilio Cymru rhag ardystio Datganiad Cyfrifon 2015/16. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi derbyn cadarnhad o'r holl faterion a oedd wedi'u harchwilio a'u datrys ac, o ganlyniad, roedd Datganiad Cyfrifon 2015/16 wedi derbyn barn archwilio eglur a thystysgrif.

O ran y sefyllfa fonitro cyllidol, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod adroddiad monitro Mis 6 wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 21 Tachwedd 2016. Roedd disgwyl i'r adroddiad monitro Mis 9 gael ei gyflwyno i'r Cabinet fis Chwefror.  Roedd disgwyl y byddai adroddiad Mis 9 yn dangos gwelliant parhaus i'r sefyllfa gyffredinol. Byddai adroddiad ar sefyllfa Mis 9 yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 14 Mawrth 2017.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau o'r gwaith oedd yn mynd rhagddo ar Strategaeth y Gyllideb 2017/18.

Roedd diwydrwydd dyladwy ar y cynigion cyllidebol 2017/18 a'r diffygion yn yr arbedion cyllidebol a nodwyd yn rhan o broses fonitro'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol presennol wedi'u gwneud, er mwyn cael barn ar pa mor realistig oedd yr arbedion hynny.  Trafodwyd canlyniadau'r gwaith hwn, mwy o bwysau cyllidebol pellach a diweddariad ar y sefyllfa ariannu ar ôl cyhoeddiad y Setliad Cychwynnol yn adroddiad ymgynghori Cynigion Cyllidebol 2017/18 a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 10 Tachwedd 2016. Roedd yr adroddiad hwn yn nodi bod angen lleihau'r gyllideb o £25.1 miliwn, sef cynnydd o £0.8 miliwn o'i gymharu ag adroddiad Strategaeth y Gyllideb.  Roedd y cyfnod ymgynghoriad ar y gyllideb rhwng 10 Tachwedd i 16 Rhagfyr 2016. Mae canlyniadau'r broses ymgynghori yn cael eu hystyried gan y Cabinet yn rhan o'r cynigion cyllidebol terfynol.

Cyhoeddwyd Setliad Llywodraeth Leol Terfynol Llywodraeth Cymru ar 21 Rhagfyr 2016. Bydd Caerdydd yn derbyn cynnydd o 0.5% mewn Cyllid Allanol Cyfanred, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sy'n 0.2%.  Mae'r cynnydd gyfystyr â £2.298 miliwn ond mae effaith cyfrifoldebau newydd yn golygu bod y cynnydd real yn dod i lawr i £294,000, sy'n ostyngiad net o £593,000 o'i gymharu â'r Setliad Cychwynnol.  Mae llawer o grantiau penodol heb eu cyhoeddi eto, a bydd y rhain yn dal i gael eu

hadolygu. Roedd y Setliad Terfynol hefyd yn cynnwys cynnydd mewn cyllid Cyfalaf Cyffredinol dros 2015/16 o 0.3% sydd gyfystyr â £41,000 mewn arian parod.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y Cabinet ar hyn o bryd yn adolygu eu cynnig cyllidebol ar ôl derbyn y setliad terfynol, canlyniadau'r broses ymgynghori a diweddariadau i'r gofynion i leihau'r gyllideb ar gyfer 2017/18. Byddai cynigion terfynol yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Cabinet ar 16 Chwefror 2017. Byddai'r Cyngor llawn yn ystyried y gyllideb ar 23 Chwefror 2017.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a/neu sylwadau ar yr adroddiad. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd yr Aelodau'r sefyllfa o ran gorwariant parhaus yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Mewn ymateb i gwestiynau, nododd y Swyddogion bod pwysau o ran cost, chwyddiant a galw yn cael eu hystyried wrth weithio ar gyllideb y flwyddyn newydd. Roedd y gorwariant yn ymwneud â llawer o arbedion nas gyflawnwyd a phwysau o ran galw. Adolygwyd arbedion nas gyflawnwyd gan ystyried p'un ai a oeddent oherwydd oedi neu'n amhosibl i'w cyflawni. Byddant hefyd yn ystyried demograffig, pwysau chwyddiant ac effaith y cyflog byw.

- Gan gyfeirio at y llithriad a nodwyd ym mharagraff 8 yr adroddiad, gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch natur y llithriad a'r camau a roddwyd ar waith i sicrhau bod y materion hynny yn cael eu datrys yn gywir. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, er nad oedd hi'n anarferol i raglenni cyfalaf fod ag ychydig o lithriad, roedd swyddogion yn deall bod rhaid i fidiau cyfalaf ystyried gofynion prosesau a phroffilio gwariant. Mae proses ar waith i sicrhau bod rhaglenni'n gadarn, ond weithiau mae oedi'n digwydd.

- Ceisiodd yr Aelodau sicrwydd ynglŷn â'r ffaith y byddai costau chwyddiant yn cael eu hystyried pe byddai unrhyw oedi hirfaith. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod pwyntiau rheoli yn y Rheolau Gweithdrefnol Ariannol sydd ynghlwm wrth y mater hwn.

- Nododd Aelod mai 20% oedd y llithriad ar brojectau cyfalaf. Awgrymwyd efallai nad oes gan swyddogion y sgiliau rheoli project a'r adnoddau all fod eu hangen i fynd ar ôl y diffyg. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y llithriad yn digwydd oherwydd llawer o resymau a bod Cyfarwyddwr yn ymwybodol o'r gofyniad i gael amgancyfrifon a phroffilio cadarn.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r wybodaeth ariannol a roddwyr a'r broses sy'n cael ei mabwysiadu mewn perthynas â pharatoi'r gyllideb ar gyfer 2017/18 a'r tymor canolig.

Llywodraethu a Rheoli Risg

67 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Derbyniodd y Pwyllgor bapur trafodaeth cryno ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2016/17. Gofynnwyd i Aelodau ystyried testun yr Adroddiad Blynyddol a gwahoddwyd barn y Pwyllgor ar yr eitemau.

Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau bod chwech o faterion allweddol wedi'u nodi a'u fframio ar ôl adolygiad o waith y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

- Rhaglen Datblygu Sefydliadol
- Rheolaeth Ariannol/Mewnol
- Materion Cytundeb a Chaffael
- Llywodraethu Ysgol a Chydymffurfiaeth
- Gwytnwch Ariannol (gan gynnwys Rheolaeth y Trysorlys)
- Blaenoriaethu / Rheoli'r Gyllideb

Byddai adroddiad blynyddol drafft yn cael ei baratoi a byddai adroddiad cynnydd pellach yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio ar 14 Mawrth 2017.

Penderfynwyd – Y dylai:

(1) Aelodau’r Pwyllgor ystyried a chyfrannu at drafodaeth ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2016/17;

(2) Byddai’r Adroddiad Blynyddol drafft yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

## 68 : CYNLLUN GWEITHREDI DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (DLLB) 2016/17 (CANOL BLWYDDYN)

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) gan nodi materion llywodraethu sylweddol a oedd yn bodoli yng nghanol blwyddyn 2016/17, fel yr aseswyd gan yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh). Byddai’r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gyflwyno yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor wedi clywed y Datganiadau Sicrwydd Rheoli yn y cyfarfod ar 29 Tachwedd 2016. Roedd manylion am y materion Llywodraethu a nodwyd a’r asesiad o bob mater yng nghanol y flwyddyn wedi’i cynnwys yn atodiad yr adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd ynghylch geiriad rhan o’r cynllun gweithredu a oedd yn ymwneud â’r amserlen a gafodd swyddogion i gynnig cyngor proffesiynol cyflawn a chadarn. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod swyddogion angen digon o amser ynghylch materion cymhleth er mwyn iddynt allu cynnig cyngor cyfreithiol ac ariannol.

Gan ymateb i gwestiwn gan Aelod, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod diffiniadau clir o'r safonau a bod y rhain yn cael eu bodloni. Ymgysylltwyd â chorff allanol yn ddiweddar er mwyn adolygu trefniadau rheoli project ac i roi sicrwydd i'r Cyngor bod modd cyflawni'r projectau. Mae’r adolygiad yn mynd rhagddo.

Ystyriodd yr Aelodau p’un ai a oedd angen brys i wahanu’r Strategaeth Gaffael oddi wrth y Strategaeth Gomisiynu ai peidio. Roedd Aelodau hefyd o’r farn y dylai’r Awdurdod allu ystyried perfformiad blaenorol contractwyr wrth asesu bidiau tendrwyr. Cadarnhaodd y Swyddogion bod y Strategaeth Gaffael yn ystyried pryderon ynghylch perfformiad contractwyr.

Mewn perthynas â chostio’r farchnad fewnol, gofynnodd yr Aelodau pa gamau oedd wedi’u cymryd i sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o gostau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod angen i'r awdurdod weithredu'n fwy masnachol. Mae angen i unedau busnes gael mwy o eglurder o ran deall eu costau.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

69 : PROTOCOL PWYLLGOR ARCHWILIO/CRAFFU

Rhoddodd Pennaeth Cyllid ddiweddariad i’r Aelodau ynghylch y protocol rhwng y Pwyllgor Archwilio a Chraffu.

PENDERFYNWYD: nodi’r adroddiad.

Swyddfa Archwilio Cymru

70 : SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Gwnaeth Ann-Marie Harkin gadarnhau bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno’r Tystysgrif Cwblhau ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2015/16. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer archwiliad 2016/17.

71 : TECLYN OLRHAIN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU/ASTUDIAETHAU ERAILL

Nododd Pennaeth Cyllid yn ystod y cyfnod rhwng 11 Tachwedd 2016 i 6 Ionawr 2017 nad oedd unrhyw adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) o berthnasedd penodol i awdurdodau lleol.

Gofynnodd Aelod am wybodaeth ynghylch statws y gwaith a wnaeth SAC yng Nghaerdydd.

PENDERFYNWYD:

(1) Y dylid nodi’r adroddiad;

(2) Y byddai Ann-Marie Harkin yn rhoi nodyn briffio i’r Pwyllgor mewn perthynas â hyn.

Rheoli’r Trysorlys

72 : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth eithriadol a ddisgrifir ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer y drafodaeth gyfan ar yr eitem hon oherwydd pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes a fyddai'n cael ei drafod, byddant yn cael clywed gwybodaeth eithriadol a ddisgrifir ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn nodi perfformiad Rheoli’r Trysorlys a datganiad sefyllfa yn 31 Rhagfyr 2016. Crynhodd Anil Hirani’r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Swyddogion bod rheolaeth y trysorlys yn destun adolygiad archwilio mewnol ac allanol. Rhagwelwyd y byddai diweddariad ar ganfyddiadau Archwilio Mewnol o'u hadolygiad blynyddol o weithdrefnau Rheoli'r Trysorlys yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth 2017. Caiff archwilio allanol hefyd ei wneud pob blwyddyn gan bod datgeliadau rheoli'r trysorlys sylweddol yn Natganiad Cyfrifon y Cyngor.

Gofynnodd yr Aelodau pa effaith y byddai unrhyw gynnydd posibl mewn graddfeydd llog benthyg yn ei gael. Tra efallai y byddai hyn yn cael effaith ar fenthyciadau newydd, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod benthyciadau presennol yn cael eu diogelu ac ar raddfeydd penodol, ac felly na fyddai'r awdurdod yn gweld effaith cynnydd mewn graddfeydd llog ar ei fenthyciadau presennol.

Cytunodd y Swyddogion i roi cymhariaeth i’r Pwyllgor o broffiliau dadansoddi aeddfedrwydd gydag awdurdodau lleol i gyfarfod Mehefin 2017 y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: nodi’r adroddiad.

73 : STRATEGAETH RHEOLI’R TRYSORLYS DRAFFT 2017/18

Derbyniodd y Pwyllgor y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys drafft 2017/18. Cafodd yr Aelodau gyfle i gyflwyno sylwadau ar y strategaeth ddrafft cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor yn rhan o'r adroddiad y gyllideb 2017/18. Roedd crynodeb o’r prif themâu yn y strategaeth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau pa mor aml roedd y strategaeth yn cael ei hadolygu. Cadarnhaodd y swyddogion bod y strategaeth yn cynnwys cyfnod tair blynedd a'i bod hi'n cael ei hadolygu yn rhan o'r broses gyllidebol, gyda diweddariad canol y flwyddyn ac adroddiad blynyddol diwedd y flwyddyn i'r Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio pob blwyddyn. Gofynnodd yr Aelodau pa mor aml yr oedd meini prawf credyd yn cael eu hadolygu, oherwydd efallai na fyddai adolygiad blynyddol yn canfod newidiadau i'r meini prawf credyd. Nododd y Swyddogion bod ymgynghorwyr rheolwyr y trysorlys yn cael eu cyflogi i adolygu meini prawf credyd ac mae unrhyw newidiadau o ran meini prawf credyd yn cael eu derbyn yn ddyddiol a’u hadolygu cyn buddsoddi gydag unrhyw sefydliad. Er bod y Strategaeth yn nodi pa gwmni allen ni fuddsoddi iddo, mae cyfrifoldeb ar Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i adolygu hyn yn gyson er mwyn ymateb yn gyflym i newidiadau o ran amodau'r farchnad. Gofynnodd Aelodau p’un ai a oedd modd defnyddio dull fformiwla neu osod pwynt ysgogi i bennu amseriad unrhyw fenthyg a lefel y benthyg allanol. Nododd Anil Hirani y caiff rhagolygon ariannol y blynyddoedd nesaf eu hystyried wrth bennu capasiti benthyg allanol, a chytunwyd i adlewyrchu ar hyn ar sail dull pwynt ysgogi ar y cyd ag ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys, a byddant yn adrodd ystyriaethau yn ôl i’r pwyllgor fel rhan o ddiweddaru'r Strategaeth hon i'r dyfodol.

Holodd aelodau am ddarpariaeth Tirlenwi o ran y strategaeth. Nododd y Swyddogion bod newidiadau i reolau cyfrifo a chyngor Swyddfa Archwilio Cymru yn gofyn i gostau ailsefydlu a monitro safleoedd tirlenwi i'r dyfodol dros cyfnod o leiaf 60 mlynedd gael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon. Mae'r rhain ynghlwm wrth safleoedd Ferry Road a Ffordd Lamby.

PENDERFYNWYD:

(1) Y dylid nodi'r adroddiad;

(2) Y byddai Anil Hirani yn trafod y dull pwyntiau ysgogi o ran balansu buddsoddiadau gydag ymgynhorwyr rheoli'r trysorlys ac adrodd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.

Archwiliad Mewnol
74 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth eithriadol a ddisgrifir ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer y drafodaeth gyfan ar yr eitem hon oherwydd pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes a fyddai'n cael ei drafod, byddant yn cael clywed gwybodaeth eithriadol a ddisgrifir ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

*Gwnaeth y Cynghorwyr Howells a Mitchell ddatgan buddiant personol yn yr eitem canlynol yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau fel Llywodraethwyr Ysgol.*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar waith Archwilio Mewnol hyd at 31 Rhagfyr 2016. Trafododd Pennaeth Cyllid y cynnydd a wnaethpwyd a'r archwiliadau a oedd wedi'u cynllunio.

Nododd yr Aelodau bod 16 o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig yn y gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Cytunodd y Swyddogion i roi mwy o fanylion i'r aelodau o'r archwiliad i restrau eiddo Canolfannau Ieuenctid.

Trafododd yr aelodau gan ofyn bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut fydd y wybodaeth hon yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol. Gofynnodd yr Aelodau bod y Pwyllgor Archwilio yn cael gwybod am unrhyw wendidau, a nododd y Pennaeth Cyllid y dylid trafod hyn yn y Cynllun Archwilio Drafft a fydd yn cael ei ystyried ddiwedd fis Mawrth 2017 yn y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

(1) y dylid nodi'r adroddiad.

(2) Y byddai'r Swyddogion yn rhoi mwy o fanylion i aelodau am yr archwiliad i restrau eiddo Canolfannau Ieuenctid.

75 : SIARTER ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2017/18

Mae dyletswydd ar y Pwyllgor Archwilio i gymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ac adolygu'r cylch gorchwyl yn flynyddol. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn cynnwys Siarter Archwilio Mewnol drafft 2017/18.

Roedd Atodiad C y strategaeth yn cynnwys cylch gorchwyl diwygiedig i'r Pwyllgor Archwilio.

Gwahoddodd Pennaeth Cyllid sylwadau gan y Pwyllgor. Awgrymodd Aelodau'r Pwyllgor nifer o fân ddiwygiadau i'r Siarter. Ymhlith y diwygiadau a awgrymwyd roedd:

- Paragraff 6 – 'mae gofyn i gyflogeion' – dylid cryfhau 'gofyn'
- Paragraff 15 – Adolygu'r paragraff ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor
- Tudalen 97 – dileu'r gair 'pump' i ddarllen 'Pwyllgorau Craffu'

Cafwyd cais gan yr Aelodau hefyd bod y Swyddogion yn egluro'r weithdrefn oedd ei hangen i alluogi'r Cyngor i fabwysiadu cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor yn ffurfiol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth 2017, gan ofyn i'r Pwyllgor gytuno ar Siarter Archwilio Mewnol 2017/18 terfynol cyn ei gyflwyno i'r Cyngor er cymeradwyaeth.

PENDERFYNWYD – Y bydd y Pwyllgor yn derbyn y Siarter Archwilio 2017/18 yn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2017.

76 : POLISI ERLYNIAD DRAFFT

Derbyniodd y Pwyllgor y Polisi Eryniadau Drafft. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y Tîm Archwiliadau Archwilio Mewnol yn cynnal ymchwiliadau troseddol mewn perthynas ag unigolion sy'n twyllo'r awdurdod.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried, nodi a chyflwyno sylwadau ar y polisi diwygiedig.

Gofynnwyd i'r swyddogion egluro'r sefyllfa mewn perthynas ag erlyniadau yn erbyn Aelodau o staff a oedd wedi diswyddo neu ymddeol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y Polisi Disgyblu newydd yn mynd ar ôl y materion hyn.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

77 : LLYTHYRAU CRAFFU A GYHOEDDWYD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi'r wybodaeth bwysig mewn perthynas â gohebiaeth a nodir gan Bwyllgorau Craffu.

Trafododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a gofynnwyd i'r Swyddogion roi crynodeb o unrhyw faterion a ystyriwyd yn berthnasol i'w Pwyllgor Archwilio.

PENDERFYNWYD – Y bydd y Cadeirydd, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth Cyllid, yn cytuno ar fformat diwygiedig er mwyn cyflwyno'r adroddiad Gohebiaeth Craffu i'r Pwyllgor ar 14 Mawrth 2017.

78 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi Rhaglen Waith y Pwyllgor Archwilio.

79 : MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

80 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae disgwyl i’r cyfarfod nesaf ddigwydd ar 14 Mawrth 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm